

Tachwedd 15^{fed}, 2017

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Cyllid Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar nos Fercher, Tachwedd 15^{fed}, 2017 am 7.20 yh.

Presennol

Cynghorwyr	R. A. Davies	Mrs K.D.L Davies	Mrs C. Thomas
	I. Rh. Llewelyn	D. Hopkins	N. Evans

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	Mrs Ll. Latham	Mrs J.E Collins	Mrs Ll. Hindley
------------	----------------	-----------------	-----------------

131.

Datganiadau o Fuddiant

Roedd y Cynghorydd R. A. Davies am ddatgan diddordeb gan taw fe yw Ysgrifennydd a Thrysorydd Clwb Tennis Llandybïe

132.

Cyllideb ar gyfer Praesept 2018 -19

Roedd y Clerc eisoes wedi dosbarthu copïau manwl o'r ffigyrau cyllideb a awgrymwyd, a balansau rhagamcanol diwedd blwyddyn cyfrifon y Cyngor. Mae'r problemau parhaus ynghylch derbyn taliadau Grant Cynnal a Chadw, trosglwyddiad biliau cyfleustodau a thalu anfonebau am y Cytundeb Lefel Gwasanaeth i Gyngor Sir Caerfyrddin wedi golygu bod llunio cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf wedi bod yn heriol iawn.

133.

Prosiectau Cyfalaf

Roedd yr Aelodau wedi adolygu blaenoriaethau'r Cyngor mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf, ac argymhellwyd cymeradwyo'r canlynol i raglen y flwyddyn nesaf:

1. Gosod matiau blodau gwyllt mewn amrywiol leoliadau	£ 3,000
2. Gosod cloc Cilyrychen o fewn ffiniau pentref Llandybïe	£ 10,000
3. Gwelliannau i orsaf drên Llandybïe	£ 1,000
4. Gwaith i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus	£10,000
5. Gosod pafin i un ochr o Heol Aberlash (rhan yn unig)	£ 78,000
6. Darparu twmpathau cyflymder yn rhan isaf Heol y Brenin	£ 2,000
7. Cynnal a chadw goleuadau stryd/llwybrau troed	£8,500
8. Gosod Cysgodfan Bys gyferbyn ag ystâd Maes y Deri, Saron	£6,000
9. Adleoli'r Swyddfa Bost i Neuadd Goffa Llandybïe	£ 5,000
10. Cwrtiau Tennis Llandybïe – llif oleuadau	£3,000
11. Newidiadau i'r Twmpathau Cyflymder yn Heol Woodfield, Llandybïe	£4,000

Argymhellwyd y dylid dyrannu £130.5 mil i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer 2018-2019.

Cadeirydd

134.

Parciau a Mannau Chwarae

Roedd yr Aelodau yn derbyn bod angen llunio rhestr gyfnewid y parciau, a bod nawr gan y Cyngor gyfle i ddatblygu cynllun strwythuredig ar gyfer y cyfleusterau hamdden hyn. Roedd cais wedi'i wneud bod y Pwyllgor Parciau a Mannau Chwarae yn cyfarfod i drafod cynnal a chadw ac amnewid offer yn y parciau ac hefyd i ystyried cynllun hir-dymor ar gyfer y materion hyn. **Argymhellwyd** bod £150 mil yn cael ei glustnodi ar gyfer unrhyw brosiect addas a gymeradwyir gan y Cyngor Llawn.

135.

Crynodeb o ffigyrau'r Gyllideb: 2018-2019

INCWM	£
Praesept	180000
Llog: Lloyds	250
Llog: cyfrifon buddsoddi	400
Grant cynnal a chadw	31617
Incwm arall	1800
Hawliau Tramwy	3000
	217067
GWARIANT	
Cyflogau staff ac Yswiriant Gwladol	25640
Gweinyddu cyffredinol	31200
Atgyweirio a chynnal a chadw'r Mannau Chwarae	30000
Taliadau Adran137	
Taliadau yn unol â phwerau eraill	
Mannau agored cyhoeddus	
Neuaddau pentref	
Claddfeydd	18000
Hawliau Tramwy – cynnal a chadw	
Hawliau Tramwy - gwelliannau	10000
Goleuo cyhoeddus - ynni	
Goleuo cyhoeddus - gwelliant	8500
Cyfleusterau Cyhoeddus	12000
Lwfans y Cadeirydd	
Prosiectau Datblygu Cymunedol - Clustnodwyd	130500
Cyfanswm	265840

Bydd y diffyg o £48773 yn dod o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.

Cadeirydd

Argymhellwyd bod y ffigyrau uchod, sy'n cynnwys codi cyflog y Clerc o un pwynt cyflog i bwynt 28, yn mynd gerbron cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor Llawn a gynhelir ym mis Tachwedd 2017.

Hefyd cytunwyd **argymell** i'r Cyngor Llawn bod y praesept yn aros fel y mae, sef £180,000.

136.

Adolygiad o'r Gweithdrefnau Archwilio Mewnol

Rhychwant yr Archwiliad Mewnol – Atgoffwyd yr Aelodau taw Mr Lyn Llewelyn yw archwilydd mewnol apwyntiedig Cyngor Cymuned Llandybïe. Cafodd ei benderfynu, mewn cyfarfod blaenorol y Cyngor Llawn ar Fai 17^{eg}, 2017, y byddai Mr Llewelyn yn parhau fel archwilydd mewnol ar gyfer 2017/2018. Roedd yr Aelodau wedi adolygu'r llythyr Cynnig Gwasanaeth Archwilio Mewnol sy'n cyfeirio'n benodol at ei annibyniaeth a'i gymhwysedd, ei lyniad at y cynllun archwilio mewnol a'i ffioedd.

Annibyniaeth – Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau y byddai Mr Llewelyn yn parhau i gynnal yr archwiliad heb ddylanwad gormodol neu wrthdaro buddiannau.

Cymhwysedd – Mae Mr Lyn Llewelyn wedi cynnal yr archwiliad mewnol ar ran y Cyngor ers blynyddoedd lawer, ac yn hollol gymwys at y swydd. Mae ganddo blynyddoedd lawer o brofiad o Lywodraeth Leol, mae'n gyn Ddirprwy Prif Weithredwr a Swyddog Cyllid Un Llais Cymru ac yn Clerc i ddau Gyngor lleol.

Perthynas ag eraill – Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng Mr Llewelyn â'r Clerc / y Swyddog Cyllid Cyfrifol neu unrhyw Gyngorydd Cymuned.

Cynllunio a Riportio'r Archwiliad – Roed yr Aelodau wedi **penderfynu** derbyn adroddiad yr Archwilydd Mewnol mewn cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar Fai 17^{eg}, 2017. Mae'r Cofnod yn dweud hyn:-

Darllenodd y Clerc adroddiad a sylwadau yr Archwiliwr Mewnol, a oedd yn datgan i'r holl brofion penodedig ynghylch systemau rheolaeth fewnol y Cyngor gael eu cwblhau'n foddhaol. Nid oedd unrhyw faterion yn deillio o'r archwiliad oedd angen eu dwyn gerbron y Cyngor, ac roedd yr adran briodol o'r Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau gan yr archwiliwr gan adlewyrchu ei ddarganfyddiadau. Adroddodd yr Archwiliwr ymhellach fod y wybodaeth cyfrifo ariannol yn parhau i gael ei gadw i safon broffesiynol uchel gyda thrywydd archwilio ardderchog.

Argymhellodd yr Aelodau nad oedd angen unrhyw gynlluniau gweithredu, ymchwiliadau neu adolygiadau mewnol ynghylch yr adroddiad, a bod y system bresennol yn ffordd effeithiol ac effeithlon o sicrhau bod gweithdrefnau archwilio mewnol Cyngor Cymuned Llandybïe yn ddigonol at bwrpas rheoli.

137.

**Rheoli'r Gyllideb ac Awdurdod i wario arian –
Adran 4.1 o'r Rheoliadau Ariannol.**

Mae rôl y Clerc wedi newid yn sylweddol ers Trosglwyddo Asedau ac, yn aml, mae angen gwneud penderfyniadau brys ynghylch Iechyd a Diogelwch yn y parciau, neu atgyweirio neu amnewid darnau o offer i sicrhau eu bod yn ddiogel. **Argymhellwyd** bod Rheoliad Ariannol 4.1 yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn:

Bod modd awdurdodi gwariant ar eitemau refeniw hyd at y symiau hynny a gynhwyswyd yn y dosbarth gwariant hwnnw yn y gyllideb gymeradwy. Penderfynir ar hyn gan y canlynol:

Y Cyngor ar gyfer pob eitem dros £5000

Pwyllgor dirprwyedig y Cyngor am eitemau dros £1000

Y Clerc, ynghyd â Chadeirydd y Cyngor neu Gadeirydd y pwyllgor priodol ar gyfer unrhyw eitemau o dan £1000.

Mewn achosion o risg eithafol i wasanaethau'r Cyngor, os fydd y Clerc o'r farn bod angen gwneud hyn, gall awdurdodi gwariant refeniw ar ran y Cyngor. Gall y fath wariant gynnwys atgyweirio ac amnewid offer parc pan fod arolygwr y parc wedi dweud yn benodol ei fod yn fater difrifol o Iechyd a Diogelwch, a hyd at uchafswm o £2500. Dylai'r Clerc riportio'r fath weithred i'r Cadeirydd cyn gynted ag y bo modd, ac i'r Cyngor Llawn cyn gynted â phosib wedi hynny.

138.

Adolygiad o oriau gwaith y Clerc

Yn gynharach eleni roedd y Cyngor wedi cytuno i ddyrannu oriau ychwanegol i'r Clerc i gydnabod y gwaith ychwanegol a oedd yn deillio o Drosglwyddo Asedau. Erbyn hyn roedd y parciau naill ai wedi'u trosglwyddo ar brydles neu ar drwydded, ac roedd llawer o'r gwaith cyfreithiol wedi'i gwblhau. Roedd rheolaeth barhaus o'r ddau bafiliwn ac adroddiadau arolygu'r parciau yn dal ar y gweill.

Oherwydd bod y Swyddog Technegol ar fin ymddeol ar Ionawr 31^{ain}, 2018, **argymhellwyd** bod y Pwyllgor Cyflogaeth yn cyfarfod i drafod strwythur staffio parhaus y Cyngor.

139.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.05 yh.